**Enw'r Ysgol:** **Ysgol Cwm y Glo** **Cyfeiriad: Cwm y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DE**

## Addysg Grefyddol

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol;
Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013),
Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

O ganlyniad i gyfnod o ansefydlogrwydd staffio yng NgA2 yn ystod 2017 (4 athro wedi bod yn y dosbarth) canfwyd fod cynnydd mewn dysgu yn y pwnc wedi amrywio o dymor i dymor yn ystod y flwyddyn.

Serch hynny, mae adroddiad arolygiad Estyn Tachwedd 2017 yn adnabod bod y disgyblion yn 'ymwybodol o anghenion eraill llai ffodus yn leol a thramor....ac yn dysgu'n llwyddiannus..'

Mae asesiadau athrawon yn INCERTS yn dangos bod y disgyblion yn cyrraedd lefelau priodol yn y pwnc.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

Ceir tystiolaeth o ddisgyblion yn datblygu sgiliau llythrennedd a TGCh yn y pwnc.

**Materion i gael sylw**

Mae angen sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o gyfleodd i ddatblygu eu medrau ar lefel briodol yn y pwnc.

Athrawon i wneud gwell defnydd o asesiadau INCERTS i gynllunio'r cam nesaf yn y pwnc er mwyn symud y disgyblion ymlaen, yn enwedig ym mlynyddoedd 5 a 6.

| Rhagorol | | Da | | Digonol | ✓ | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol,
Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013),
Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

O ganlyniad i gyfnod o ansefydlogrwydd staffio yng NgA2 yn ystod 2017 (4 athro wedi bod yn y dosbarth) canfwyd fod y ddarpariaeth wedi bod yn anghyson yn y pwnc.

| |
|---|
| Bellach, ers Tachwedd 2017, mae cyfnod penodol wedi ei amserlenu i roi sylw rheolaidd, wythnosol i'r pwnc ac mae'r ddarpariaeth yn cael ei ail gynllunio i sicrhau sylw i enhangder y Rhaglen Astudio Enghreifftiol yng nghyfnod allweddol 2.<br><br>O ganlyniad i weithgareddau craffu ar lyfrau CA2 fe welwyd bod agweddau o'r Rhaglen Astudio Enghreifftiol wedi cael mwy o sylw (Archwilio credodau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol) nag eraill (Mynegi ymatebion personol).<br><br>Mae asesiadau INCERTS yn dangos bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol gyda rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd D6. |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**<br><br>Ceir tystiolaeth o ddisgyblion yn datblygu sgiliau llythrennedd a TGCh yn y pwnc. |
| **Materion i gael sylw**<br>Ail gynllunio'r ddarpariaeth wedi ei hadnabod i gael sylw yng nghynllun ôl arolwg Tachwedd 2017. |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | ✓ | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Addoli ar y Cyd**

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy**<br>✓ | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1,<br>'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) ,<br>'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94),<br>Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Cyfnodau rheoli ar y cyd dyddiol wedi eu hamserlennu ac yn weithredol.<br><br>Gwasanaethau yn cael eu harwain gan y Pennaeth, athrawon, Ffrindiau Agor y Llyfr, aelodau o Gynllun EfE, a disgyblion yn eu tro yn rheolaidd. Mwyafrif o'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol yn y gwasanaethau yn rheolaidd. Cyfnodau rheolaidd i rhan fwyaf o'r disgyblion ymdawelu a myfyrio ar yr hyn a gyflwynwyd.<br><br>Mae'r disgyblion wedi gwneud defnydd o'r cyfnodau addoli ar y cyd i weithredu ar ran elusennau e.e. Banc Bwyd Caernarfon, Plant Mewn Angen, Water Aid, Ambiwlans Awyr ac i godi arian i rai mewn argyfwng e.e. cymuned leol wedi daeargryn Nepal, a mabwysiadu cŵn tywys. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion CA2 arwain gwasanaethau boreuol yr ysgol ar yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy. | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Nia G. Oliver* (Pennaeth) Dydddiad: 17/1/18